



**GIG**  
CYMRU  
**NHS**  
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Betsi Cadwaladr  
University Health Board

## Datganiad i'r Wasg / Press Release

10 Tachwedd 2010

Dymuna Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr roi diwedd ar yr holl ddyfalu ynghylch dyfodol y tri Ysbyty Cyffredinol Dosbarth ym Mangor, Bodelwyddan a Wrecsam. Mae'r dyfalu hwn wedi codi o gyfres o Adolygiadau Gwasanaeth a gychwynwyd yn gynharach eleni.

Yn gyntaf, dymuna'r Bwrdd egluro mai bwriad yr Adolygiadau hyn yw ysgogi trafodaeth rhwng clinigwyr, rhanddeiliaid a chymunedau lleol ynghylch sut y gallai gwasanaethau orfod newid er mwyn cadw'n gyfredol â thueddiadau demograffeg, technoleg newydd a chynnal rhestrau meddygol diogel a chynaliadwy.

Nid bwriad yr Adolygiadau hyn yw gwneud unrhyw benderfyniadau ynghylch cyfluniad gwasanaeth yn y dyfodol, yn wir, nid oes ganddyn nhw'r grym i wneud hynny. Fe'u sefydlwyd i adnabod anawsterau a dulliau posibl o'u datrys drwy ymgysylltu â chlinigwyr a defnyddwyr gwasanaeth ac mae canlyniadau'r trafodaethau hynny 'n cael eu hadrodd yn ôl i'r Bwrdd i'w hystyried.

Yn ail, nid proses newydd mo hon – fe'i defnyddiwyd yn gyson ac yn llwyddiannus yn y gorffennol fel y cam cyntaf mewn proses hirach o ddiffinio materion a allai ymddangos yn broblemau, a llunio opsiynau ar gyfer gwelliant.

Yn drydydd, dymuna'r Bwrdd gadarnhau pe byddai unrhyw un o'r Adolygiadau hyn yn awgrymu bod sail i newid, yna byddai angen i'r Bwrdd Iechyd ystyried cynigion o'r fath yn ofalus iawn ac os fydden nhw'n ystyried fod achos dros newid, byddai'r cynigion hynny'n debygol o fod yn agored i ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol a fyddai'n cynnwys y Cyngor Iechyd Cymuned.

Mae'r Bwrdd yn ymwybodol bod unrhyw gynigion i newid gwasanaeth yn achosi pryder, yn arbennig mewn gwasanaethau fel paediatreg, maes lle mae pryderon arbennig. Mewn achosion fel hyn mae'r Gweinidog wedi egluro wrth y Bwrdd y byddai'n rhaid i unrhyw gynigion fod yn seiliedig ar dir cadarn iawn ar gyfer newid, ac y byddai'n rhaid i unrhyw opsiynau ddangos y manteision a'r gwelliannau sylweddol o ganlyniad i'r newid ac yn seiliedig ar arfer gorau a thystiolaeth gref. Mewn achosion o'r fath byddai'r Gweinidog yn disgwyl i'r Bwrdd ofyn am farn annibynnol y Colegau Brenhinol i helpu llunio'r cwestiynau a'r opsiynau posib ar gyfer newid.

Dymuna'r Bwrdd egluro bod y tri Ysbyty Cyffredinol Dosbarth yng Ngogledd Cymru yn hanfodol a sylfaenol i unrhyw gynlluniau gwasanaeth yn y dyfodol.

O ran yr adolygiadau sydd ar y gweill ar hyn o bryd, mae staff a rhanddeiliaid wedi gofyn am fwy o amser a gwybodaeth. Hefyd cynhelir mwy o drafodaethau manwl rhwng clinigwyr. Bydd y Bwrdd Iechyd yn sicrhau bod hyn yn digwydd. Golyga hyn y

bydd y safbwyntiau a fynegir yn debygol o arwain at gynnydd yn nifer yr atebion  
posibl y gellid eu hystyried.

## **DIWEDD**

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Trystan Pritchard ar (01248) 384 938



**GIG**  
CYMRU  
**NHS**  
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Betsi Cadwaladr  
University Health Board

## Datganiad i'r Wasg / Press Release

**10<sup>th</sup> November 2010**

The Betsi Cadwaladr University Health Board wishes to put an end to speculation regarding the future of the three District General Hospitals at Bangor, Bodelwyddan and Wrexham. This speculation has arisen out of a series of Service Reviews initiated earlier this year.

First, the Board wishes to clarify that these Reviews were intended to stimulate a discussion between clinicians, stakeholders and local communities about how services may need to change in order to keep pace with demographic trends, new technology and to sustain safe and sustainable medical rotas.

These Reviews are not designed to make any decisions about future service configuration, nor are they empowered to do so. They were set up to identify issues and possible solutions by engaging with clinicians and service users and the results of those discussions reported back to the Board for consideration.

Secondly, this process is not new and has been used consistently and successfully in the past as the first stage of a longer process to define perceived problems and frame options for improvement.

Thirdly, the Board wishes to confirm that should any of these Reviews suggest that there are grounds for change then such proposals would need to be very carefully considered by the Health Board and should they consider there is a case for change those proposals are most likely to be subject to formal public consultation which would involve the Community Health Council.

The Board is conscious that any proposals for service change can be a cause for concern, especially in services like paediatrics which can be a particular source of anxiety. In such cases the Minister has made it clear to the Board that any proposals would have to be based on the strongest grounds for change, and that any options put forward would have to demonstrate the significant benefits and improvements to be derived from the change and based on best practice and strong evidence. In such cases the Minister would expect the Board to invite an independent view from the Royal Colleges to help frame the questions and possible options for change.

The Board wishes to make it clear that the three District General Hospitals in North Wales are essential and fundamental components of any future service plans.

In relation to the reviews currently underway, staff and stakeholders have asked for more time and more information. Further detailed discussions between clinicians will also take place. The Health Board will make sure this happens. This means that the

views expressed are likely to increase the number of possible solutions to be considered.

**ENDS**

For more information, contact Trystan Pritchard on (01248) 384 938